**Cadwch y llythyr hwn gan fod ganddo ddyddiadau'r sesiynau brechu. Cysylltwch â Thîm Imiwneiddio'r Ysgol os oes gennych unrhyw ymholiadau. Diolch**


Powys.SchoolImmunisationTeamSouth@wales.nhs.uk
Powys.SchoolImmunisationTeamNorth@wales.nhs.uk

**Ffôn 01874 615674 (De) 01686 617463 (Gogledd)**


GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

HEALTHY CHILDREN LEARN BETTER — SCHOOL NURSES MAKE IT HAPPEN

**MYFYRWYR BLWYDDYN 9**

Amddiffynwch eich plentyn rhag **Clefyd Meningococcal** a **Difftheria, Tetanws a Polio gyda'r brechiad MenACWY a DTP 3:1**

**Mae ffurflenni cydsyniad i'w cwblhau'n electronig ar gyfer pob brechiad ac maent ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.**

Bydd tîm imiwneiddio'r ysgol yn ymweld â'ch ysgol ar ______________________i gynnig brechiadau MenACWY a DTP i fyfyrwyr. **Rhoddir hyn drwy ddau bigiad** ac fe'i cynigir i **fyfyrwyr BLWYDDYN 9** ac **unrhyw fyfyrwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 sydd wedi methu'r brechiadau hyn o'r blaen.**

Mae'r brechlyn MenACWY yn helpu amddiffyn eich plentyn rhag pedwar math o facteria Meningococol A C W ac Y a all achosi Meningitis (llid yr ymennydd) a Septisemia (gwenwyno'r gwaed). Mae pobl ifanc ac oedolion ifanc mewn mwy o berygl o gael clefyd meningococcal, felly nod brechu yw darparu amddiffyniad uniongyrchol o fewn y boblogaeth hon.

Mae'r brechlyn Difftheria/Tetanws/Polio (DTP 3-mewn-1) yn frechlyn atgyfnerthu i gwblhau'r pedwar imiwneiddiad DTP a roddir yn yr amserlen imiwneiddio cyn-ysgol plentyndod. Mae'r brechlyn yn cryfhau'r amddiffyniad yn erbyn y clefydau difrifol hyn ac yn cadw pobl ifanc wedi'u hamddiffyn am flynyddoedd lawer mwy. Mae difftheria yn glefyd prin ond difrifol a all arwain at broblemau anadlu a gall niweidio'r galon a'r nerfau. Mae tetanws yn glefyd difrifol sy'n effeithio ar y system nerfol sy'n cael ei achosi gan germau a geir yn y pridd sy'n mynd i mewn i'r corff trwy doriadau neu losgiadau agored. Mae polio yn feirws sy'n ymosod ar y system nerfol.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflenni cydsyniad fydd hanner nos cyn y sesiwn imiwneiddio. Bydd ffurflenni a gyflwynir ar ôl yr amser hwn yn cael cynnig dyddiad imiwneiddio yn ddiweddarach.

**Ar ôl i chi gwblhau'r ffurflenni cydsyniad, rhowch wybod i'r ysgol cyn diwrnod y brechu os ydych yn dymuno tynnu'ch cydsyniad yn ôl.**

**Neu os oes unrhyw newidiadau i Iechyd eich Plentyn, cysylltwch â'r ysgol neu dîm imiwneiddio'r ysgol.**

Cliciwch ar y dolenni isod i gael rhagor o wybodaeth am y brechlynnau.

- phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/leaflets/school-age-children-and-young-people/protection-against-meningitis-and-septicaemia-for-teens-and-young-people-under-25/

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

**Cadwch y llythyr hwn gan fod ganddo ddyddiadau'r sesiynau brechu. Cysylltwch â Thîm Imiwneiddio'r Ysgol os oes gennych unrhyw ymholiadau. Diolch**

Powys.SchoolImmunisationTeamSouth@wales.nhs.uk
Powys.SchoolImmunisationTeamNorth@wales.nhs.uk

**Ffôn 01874 615674 (De) 01686 617463 (Gogledd)**

- phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/leaflets/school-age-children-and-young-people/3-in-1-booster-protection-against-tetanus-diphtheria-and-polio/

**CYFLWYNIR FFURFLENNI CYDSYNIAD YN ELECTRONIG TRWY DDEFNYDDIO'R DDOLEN NEU'R COD QR ISOD**

**NODER: RHAID I CHI GWBLHAU'R DDWY FFURFLEN, UN AR GYFER POB BRECHLYN**

**Cwblhewch y ffurflen hyd yn oed os nad ydych chi eisiau i'ch plentyn gael y brechiadau fel bod Cofnodion Iechyd y Plentyn yn cael eu diweddaru.**

**MAE DOLEN AR Y FFURFLEN I DDOD O HYD I RIF GIG EICH PLENTYN. GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN YCHWANEGU HYN AT Y FFURFLENNI – GWELER Y DDOLEN ISOD AM Y DDOLEN I'R FFURFLEN E-GYDSYNIAD:**

Menacwy:
https://forms.office.com/pages/responsepage.aspx?id=uChWuyjjgkCoVkM8ntyPruzVIUzDHG5Lqw4zYBDldkpUMow4VlUzNo5KUlJRUDhITVYzTU5JNoFNSSQlQCNoPWcu&route=shorturl

Menacwy Vaccine

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

**Cadwch y llythyr hwn gan fod ganddo ddyddiadau'r sesiynau brechu. Cysylltwch â Thîm Imiwneiddio'r Ysgol os oes gennych unrhyw ymholiadau. Diolch**

Powys.SchoolImmunisationTeamSouth@wales.nhs.uk
Powys.SchoolImmunisationTeamNorth@wales.nhs.uk

**Ffôn 01874 615674 (De) 01686 617463 (Gogledd)**

DTP:
https://forms.office.com/pages/responsepage.aspx?id=uChWuyjjgkCoVkM8ntyPruzVIUzDHG5Lqw4zYBDldkpUQzdTSkVPN1lFQlQ4MklKRoJIUjZLSFdENSQlQCNoPWcu&route=shorturl

DTP Diphtheria Tetanus Polio Booster

Dilynwch y ddolen i Ddatganiad Preifatrwydd BIAP https://biap.gig.cymru/use-of-site/preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd/

**Mae mynediad i lenwi'r ffurflen Microsoft Forms yn cael ei gefnogi gan y porwyr canlynol:**

Microsoft Edge / Google Chrome / Mozillia Firefox / Safari ar iOS / Chrome ar Android

**Os ydych chi'n cael trafferth cwblhau'r ffurflen, gallech chi roi cynnig ar y canlynol neu gysylltu â'r gwasanaeth Imiwneiddio Ysgolion**

- Clirio storfa eich porwyr
- Analluogi estyniadau’r porwr
- Ailosod gosodiadau eich porwr i'r rhagosodiad
- Defnyddiwch y modd Incognito yn eich porwr cyfredol
- Chwiliwch am ddiweddariadau Windows

